SGILIAU GOROESI
yn y Gweithle

GWASANAETHU CERBYDAU MODUR

The Basic Skills Agency
Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol



Tasgau pob dydd ar gyfer gweithwyr gwasanaethau cerbydau modur

- Cymryd negeseuon ffôn
- Dilyn amserlenni ar gardiau gwaith
- Gwasanaethu ac atgyweirio cerbydau
- Defnyddio offer diagnostig a phrofi
- Amserlennu ac amseru gwaith
- Hysbysu'r Rheolwr Gwasanaethu am rannau sydd eu hangen o'r storfa
- Tiwnio injans, newid teiars a chydbwyso olwynion

- Gosod rhannau injan newydd yn lle rhai diffygiol neu rai treuliedig
- Glanhau ceir
- Cael gwybodaeth o siartiau a rhestrau prisiau

PA SGILIAU?

Siarad a Gwrando

- Gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau wyneb yn wyneb a dros y ffôn, e.e. gan oruchwyliwr, cwsmeriaid a chydweithwyr
- Esbonio gofynion yn gywir, e.e. am rannau sbâr i'r Rheolwr Gwasanaethau neu weithiwr y storfa, i gydweithwyr am gymorth gyda gwaith
- Siarad yn glir ac yn ddigon uchel i gael eich clywed mewn garej swnllyd, e.e. ar gyfer rhybuddion a chyfarwyddiadau



Darllen

- Cael gwybodaeth o dablau a siartiau, e.e. rhestrau prisiau, siartiau trawsnewid, arwyddion diogelwch, pwysedd teiars
- Dilyn cyfarwyddiadau ysgrifenedig, e.e. ar gyfer defnyddio offer, rheoliadau iechyd a diogelwch, cardiau gwaith
- Darllen gwybodaeth syml, e.e. nodiadau gan gydweithwyr, cylchgronau masnach, catalogau, posteri a deunydd hyrwyddo

Ysgrifennu

- Ysgrifennu'n glir ac yn gywir ar ffurflenni a chofnodion syml, e.e. llyfr damweiniau, cardiau gwaith, ffurflenni archebu, cofnodion gwasanaethu cerbydau
- Nodi negeseuon o alwadau ffôn, e.e. gan gydweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr

Sgiliau Rhif

- Ysgrifennu rhifau'n glir i osgoi camgymeriadau, e.e. rhifau ffôn, symiau stoc, cost rhannau, rhifau rhannau, darlleniadau tacomedr, rhifau siasi
- Amcangyfrif a chyfrif rhifau, e.e. gwadnau breciau, rhannau, offer, nytiau a bolltau
- Amcangyfrif a mesur cyfaint hylif, e.e. dŵr, olew, gwrthrewydd
- Amcangyfrif a mesur amser, e.e. i amserlennu gwaith, i roi gwybodaeth am gostau llafur ar filiau
- Mesur pwysedd ar gyfer rhoi gwynt mewn teiars
- Cael gwybodaeth o siartiau a thablau er mwyn ei chymharu â mesuriadau a gymerwyd, e.e. pwysedd teiars, gwefr batris, gollyngiadau pibell wacáu



Sgiliau cyfathrebu sydd eu hangen i weithio mewn garej

- Darllen – deall gwybodaeth ysgrifenedig a graffigol syml, e.e. cardiau gwaith, nodiadau a negeseuon, catalogau, rhybuddion iechyd a diogelwch
- Ysgrifennu – ffurflenni a negeseuon syml, e.e. llyfr damweiniau, cofnodion gwasanaethu, negeseuon ffôn
- Siarad a Gwrando – siarad ag unigolion dros y ffôn ac wyneb yn wyneb â chwsmeriaid, cydweithwyr, goruchwylwyr, rhoi a derbyn cyfarwyddiadau yn y garej

Sgiliau rhifedd sydd eu hangen i weithio mewn garej

- Rhifau – cofnodi rhifau a deall siartiau a thablau, e.e. rhifau ffôn, stoc, rhifau siasi, darlleniadau tacomedr, siartiau pwysedd teiars
- Mesuriadau – amcangyfrifon a mesuriadau syml o gyfaint hylif a phwysedd aer
- Amser – amcangyfrif a mesur amser, e.e. i amserlennu gwaith, i roi pris am gostau llafur

I ddechrau gwaith neu i wneud CGC (NVQ) mewn gwasanaethu cerbydau modur, mae angen y lefelau canlynol o sgiliau sylfaenol:

- cyfathrebu ar Fynediad 3; (darllen ar Lefel 1);
- rhifedd ar Lefel 1.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol/
The Basic Skills Agency,
Commonwealth House,
1–19 New Oxford Street,
London WC1A 1NU

Ffôn: 020 7405 4017

Ffacs: 020 7440 7770

ebost: ymholiadau@
basic-skills.co.uk
www.sgiliau-sylfaenol-cymru.org

The Basic Skills Agency
Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol